

# Y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Gweithredu'r Cynnig Gofal Plant yn Gynnar Cwestiynau ac Atebion i Ddarparwyr

**Beth yw'r cynnig gofal plant?** Bydd y cynnig gofal plant newydd yn golygu y bydd rhieni sy'n gweithio yn gymwys i dderbyn 30 awr o addysg gynnar a gofal plant ar gyfer eu plant 3 a 4 mlwydd oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Bydd y cynnig yn datblygu'r hawl bresennol i blant gael addysg gynnar yn ystod tymhorau ysgol, gan gynnig 30 awr o ofal plant yn ystod 9 wythnos o'r gwyliau.

**Beth mae hyn yn ei olygu i mi, fel darparwr?** Cyn belled ag eich bod wedi cofrestru gyda AGGCC (neu'r corff cyfatebol yn Lloegr), gallech gael cyllid gan yr awdurdod lleol fel rhan o gynllun peilot ar gyfer y plant 3 a 4 oed sy'n manteisio ar y cynnig yn eich lleoliad chi.

**Pa ardaloedd yw'r ardaloedd peilot?** Mae ardaloedd peilot yn Abertawe, Blaenau Gwent, Caerffili, Gwynedd, Rhondda Cynon Taf, Sir y Ffiint ac Ynys Môn. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch yr ardaloedd penodol i'w gweld ar wefannau'r awdurdodau lleol.

**Oes rhaid imi fod wedi fy lleoli yn un o'r ardaloedd peilot i gymryd rhan yn y gwaith o weithredu'r cynnig yn gynnar?** Nac oes. Rhaid i'r rhieni fod yn gymwys ac wedi'u lleoli yn un o'r ardaloedd peilot i fanteisio ar y cynnig. Fodd bynnag, mae modd i elfen gofal plant y cynnig gael ei ddarparu yn unrhyw leoliad gofal plant cofrestredig, ymhle bynnag.

**Oes rhaid imi ddarparu'r Cyfnod Sylfaen er mwyn darparu elfen gofal plant y cynnig?**

Nac oes. Bydd rhai plant yn parhau i gael addysg gynnar mewn lleoliadau a gynhelir. Nid oes angen i ddarparwyr gofal plant ddarparu addysg gynnar ac elfennau gofal plant y cynnig fel ei gilydd.

**Oes rhaid imi allu darparu'r cynnig am 48 wythnos y flwyddyn i gymryd rhan?** Nac oes. Gall rhieni fanteisio ar y cynnig drwy ddarparwyr gwahanol yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Gall darparwyr nad ydynt ond yn cynnig darpariaeth yn ystod y tymor, neu ddim ond yn ystod gwyliau'r ysgol barhau i ddarparu'r cynnig.

**Faint fyddaf i'n cael fy nhalu?** Bydd pob darparwr yn cael £4.50 yr awr ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn yr elfen gofal plant o'r cynnig.

**Gaf i godi tâl ychwanegol ar y rhieni?** Na chewch. Ni chewch godi tâl ychwanegol fesul awr os byddech yn codi mwy na £4.50 yr awr yn arferol.

**Gaf i godi tâl am fwyd a gweithgareddau ychwanegol?** Cewch. Os oes angen, cewch godi tâl ar rieni am elfennau ychwanegol fel bwyd, cludiant a gweithgareddau i ffridd o'r safle sy'n arwain at gostau ychwanegol. Canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chodi tâl ychwanegol am sesiwn dydd llawn ( tua 10 awr) yw na ddylid codi mwy na £7.50 y dydd ar rieni ( byddai hyn yn cynnwys tri phryd bwyd am £2 yr un a dau byrbryd am 75c yr un) . Am sesiwn gofal hanner diwrnod ( tua 5.5 awr) ni ddylid codi tâl o fwy na £4.75 ar rieni ( dau bryd bwyd am £2 yr un, ac un byrbryd am 75c yr un) . Mewn perthynas â gofal sesiynol lle na ddarperir pryd bwyd, dim ond byrbryd, y canllaw ydi na ddylid codi tâl ar rieni o fwy na 75c y dydd.

**Sut fyddaf i'n cael fy nhalu?** Dylech hawlio cyllid am yr oriau y mae plentyn wedi cofrestru gyda chi o dan y cynnig gan eich awdurdod lleol.